**9.Can y cneifio**

Defaid aeddfed ydan ni
Yn ein cotiau cynnes cu
Pan ddaw hi yn fis Mehefin
Bydd yn rhaid ein cneifio wedyn

O mor glyd yr ydan ni
O mor glyd yr ydan ni
Mae hi’n haf bob dydd o’r flwyddyn
Yn ein hyfryd hyfryd gnu

Ffermwyr ifanc ydan ni
Da ni’n mynd i’ch cneifio chi
Er nad ydi ond mis Ionawr
Bydd pob cot o wlan yn gonnar

Da ni’n ffermwyr ifanc cry
Snip snip snip ein gwalla ni
Clipio’n slic drwy’ch cotiau chi
Snip snip snip i ffwrdd a’r cnu

Defaid
O mor oer yr ydan ni
O mor oer yr ydan ni
Dani yma’n oer - yn fferu
Heb ein hyfryd hyfryd gnu.

Pawb:
O mor oer yr ydyn nhw
O mor oer yr ydyn nhw
Ma nhw yma’n oer - yn fferu
Heb eu hyfryd hyfryd gnu.